

Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg

5 Hydref 2022

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r wybodaeth y gofynnodd Gomisiynydd y Gymraeg amdani am weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg HCPC.

1. Cefndir

2.1 Gwnaethom lansio ein Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) yn 2011. Ers hynny, rydym wedi cwblhau naw adroddiad gweithredu yn mynd i'r afael â'r Cynllun at sylw Comisiynydd y Gymraeg.

2.1 Rydym yn dilyn yr egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru Mae ein Cynllun yn nodi sut rydym yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.1 Yn ystod 2021-2022, rydym wedi parhau i weithredu darpariaethau ein Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys:

- ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth barhau i ddatblygu ein gwefan,
- asesu diweddariadau i bolisiâu yn erbyn ein Cynllun Iaith Gymraeg,
- codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr o'n rhwymedigaethau dan y Cynllun drwy gyfathrebu'n fewnol a datblygu modiwlau e-ddysgu newydd ar gyfer staff.

Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg	Ymateb HCPC (pob ffigur yn berthnasol i'r cyfnod rhwng Ebrill 2021 - Mawrth 2022)
<p>Asesiad o effaith y polisi</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer a chanran y polisiâu (gan gynnwys y rheiny a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) a oedd yn ystyried effaith y polisi ar ddefnydd yr iaith Gymraeg. ○ Enghraifft o asesiad sydd wedi'i bennu i effeithio ar ddefnydd yr iaith Gymraeg a manylion ynghylch sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad i hynny. 	<p>5 (100%). Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o bolisiâu sylweddol fel ein datganiadau Canllawiau ar lechyd a Chymeriad, a datblygiad ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Rhaid i bob prosiect sy'n cael ei gynnal gynnwys asesiad effaith sy'n gofyn "sut all y prosiect hwn gysylltu â'n hymrwymadau dan y Cynllun Iaith Gymraeg?"</p> <p>Er bod rhaid i'n holl adolygiadau polisi gynnwys asesiad effaith, ni phennwyd unrhyw un o'r polisiâu hyn i fod ag effaith ar ein hymrwymadau drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd y polisiâu a adolygwyd yn ystod y cyfnod yn effeithio ar y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC ledled y DU (yn hytrach na rhai sydd wedi cofrestru yng Nghymru yn benodol) ac nid ar aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.</p>
<p>Cyhoeddiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> □ Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd □ Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg 	<p>Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd; 181. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safonau a chanllawiau = 42 • Adroddiadau = 103 • Polisi = 24 • Deddfwriaeth = 13 <p>15</p> <p>Er bod ein holl gyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd, nid yw pob un ohonynt yn ymwneud â chynnal busnes cyhoeddus nac wedi'u llunio ar gyfer y cyhoedd fel y brif gynulleidfa darged. Rydym yn cyhoeddi'n ddwyieithog, pan fo lefel y budd cyhoeddus posibl yn gofyn am hynny.</p>

	<p>Mae gan HCPC bolisi gwe yn gyntaf ar waith, lle'r ydym yn blaenoriaethu creu cynnwys gwe dros gyhoeddiadau unigol. Mae hyn yn golygu ein bod yn fwy tebygol o ddiweddarau ein cynnwys ar y wefan yn hytrach nag o fewn cyhoeddiadau.</p>
<p>Cwynion</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas ag ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru ○ Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg mewn perthynas ag ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru ○ Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Cyngor gyda'i gynllun iaith Gymraeg ○ Eglurwch natur unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor gyda'i Gynllun iaith Gymraeg 	<p>60</p> <p>0</p> <p>1</p> <p>Cawsom un gŵyn gan un a oedd wedi cofrestru, sef un yr oeddem wedi cyfathrebu ag ef yn Saesneg, er ein bod wedi nodi ei fod yn gofyn am ohebiaeth Gymraeg ar ei ffeil gofrestru. Cafodd y gŵyn ei hadolygu, a chanfuwyd mai dryswch wrth ymdrin â'r wybodaeth oedd wrth wraidd y mater. Er ein bod wedi anfon gohebiaeth Gymraeg at y cyfeiriad e-bost cofrestredig, anfonwyd neges destun atgoffa at y rhif symudol cofrestredig yn Saesneg yn unig. Aethom i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod ein cofnodion yn gywir.</p>
<p>Gwefan</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Canran o wefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg ○ Tystiolaeth sy'n ymwneud â gwelliannau neu gynnydd yn y darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y wefan 	<p>6.65% (ac eithrio cynnwys dynamig, e.e. gwrandawiadau, newyddion, digwyddiadau, adnoddau neu ddogfennau).</p> <p>Mae canran ein gwefan sydd ar gael yn Gymraeg wedi gostwng ers y cyfnod adrodd diwethaf am ddau reswm. Yn gyntaf, mae mwy o gynnwys ar y wefan yn gyffredinol. Yn ail, rydym wedi newid y ffordd rydym yn casglu ystadegau at y diben hwn. Yn flaenorol, roeddem yn pennu'r ganran gan ddefnyddio</p>

<ul style="list-style-type: none"> ○ Tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses a ddefnyddiwyd i sicrhau bod cynnwys cyfredol, diweddariadau a chynnwys newydd, yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg 	<p>gwybodaeth a dynnwyd o'n map safle, ond roedd hyn yn cyflwyno data ar dudalennau'r ddwy lefel gyntaf neu isadrannau'r wefan yn unig. Mae ein dull newydd yn cynrychioli cynnwys ein gwefan yn fwy cywir. Golyga hyn, er bod canran y cynnwys wedi gostwng, nid yw swmp y cynnwys Cymraeg wedi gostwng, o gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol.</p> <p>Caiff cynnwys ein gwefan ei reoli gan dîm bychan sydd wedi cael hyfforddiant ar ein Cynllun Iaith Gymraeg. Pan gaiff cynnwys gwe newydd ei ddatblygu fel rhan o brosiect mwy, bydd unrhyw effaith ar ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i nodi yn ystod camau cychwynnol y prosiect, neu bydd asesiad effaith wedi'i gynnal cyn ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth lywodraethol.</p>
<p>Hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau hynny. ○ Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddiwyd i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. asesu profiad defnyddwyr presennol / darpar ddefnyddwyr posibl) 	<p>Llofnod e-bost staff yn cynnwys yr ymadrodd "Gallwch ohebu yn Gymraeg neu Saesneg /Correspondence is welcome in English or Welsh" er mwyn annog unigolion i gyfathrebu gyda HCPC yn Gymraeg.</p> <p>Mae gan ein gwefan dab 'Cymraeg' amlwg sy'n cyflwyno gwybodaeth yn Gymraeg, sy'n berthnasol i aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Bydd Comisiwn y Gymraeg yn cyflwyno safonau newydd cyn bo hir. Rydym wedi dechrau mynd ati i roi'r safonau newydd ar waith, a byddwn yn diweddarau ein Cynllun Iaith Gymraeg i adlewyrchu'r safonau newydd hynny.</p> <p>Rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein tudalennau Cymraeg yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol, yn gywir ac yn cydymffurfio â gofynion ein Cynllun. Mae unrhyw adborth rydym yn ei</p>

	<p>gael sy'n ymwneud â'n Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei drin gan ein tîm Cwynion ac Adborth, ac yn cael ei fonitro'n fewnol pan fo gwersi i'w dysgu.</p>
<p>Achosion addasrwydd i ymarfer</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau lle'r oedd tyst yn dymuno siarad Cymraeg</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau lle gafodd tystiolaeth ei chyflwyno'n Gymraeg</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg</p>	<p>Gwnaethom gynnal 54 gwrandawriad ar gyfer 28 pryder lle'r oedd y sawl a gofrestrodd wedi cofrestru cyfeiriad yng Nghymru. O'r rhain, gwnaethom gynnal 2 gwrandawriad yng Nghymru, a chafodd 52 o wrandawiadau eu cynnal yn electronig.</p> <p>0</p> <p>0</p> <p>0</p>
<p>Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith</p> <p><input type="checkbox"/> Nifer a chanran staff y sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.</p>	<p>Aeth 98% o staff a oedd gofyn iddynt gwblhau'r modiwl erbyn diwedd mis Mawrth 2022 ati i wneud hynny'n llwyddiannus.</p> <p>Yn ystod y cyfnod adrodd, penderfynom ddod â'n modiwl ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i ben, a oedd yn rhan o'n gweithdrefnau cynefino corfforaethol. Gwnaethom sefydlu modiwl e-ddysgu yn ei le, y mae staff yn ymgymryd ag ef yn flynyddol (yn yr un ffordd yr ydym yn aseinio hyfforddiant ar y Ddeddf Llwgwrwobrwyo i'n staff yn flynyddol).</p> <p>Yn ystod y cyfnod adrodd, aeth 100 o ddechreuwy'r newydd i'r afael â'r modiwl cynefino corfforaethol. Mae gan ddechreuwy'r newydd sawl wythnos i gwblhau ein holl gyrsiau cynefino, sy'n golygu nad oedd gofyn i rai aelodau o staff gwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd y cyfnod adrodd.</p>
<p>Hunanreoleiddio</p> <p><input checked="" type="radio"/> Manylion y trefniadau a gweithdrefnau mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu er mwyn gallu hunanreoleiddio'n effeithiol.</p>	<p>Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, lanswyd ein modiwl hyfforddiant iaith Gymraeg newydd ar gyfer staff. Cyn hyn, roedd ein hyfforddiant ar y Cynllun Iaith Gymraeg</p>

	<p>wedi'i gynnwys yn ein gweithdrefnau cynefino corfforaethol. Mae'r hyfforddiant newydd yn fodiwl unigol sy'n cynnwys adrannau sy'n ymwneud â hanes yr iaith Gymraeg ac arwyddocâd diwylliannol yr iaith Gymraeg yng Nghymru, ac mae'n orfodol i bob aelod o staff.</p> <p>Gan fod ein dogfennau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol am ein Cynllun Iaith Gymraeg, caiff prosiectau newydd eu hasesu yn erbyn meini prawf ar y camau datblygu a gweithredu.</p>
--	--